| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | **Cyngor** |
| **DYDDIAD** | **2 Mawrth 2017** |
| **TEITL** | **Cynllun y Cyngor 2017/18** |
| **PWRPAS** | **Cymeradwyo Cynllun y Cyngor** |
| **AWDUR** | **Y Cynghorydd Dyfed Edwards** |
| **SWYDDOG CYSWLLT** | **Hawis Jones, Rheolwr Cynllunio Strategol, Perfformiad a Phrosiectau** |

## 1. Cyflwyniad

1.1 Ym mis Mai 2013, mabwysiadodd y Cyngor ei Gynllun Strategol ar gyfer 2013-17, ac mae'r cynllun a gyflwynir yma ar gyfer 2017/18 yn ymestyniad blwyddyn o'r cynllun hwnnw. Prif bwrpas y cynllun yw gosod gweledigaeth y Cyngor, ac fe'i adolygir yn flynyddol. Hwn yw Cynllun Gwella'r Cyngor.

1.2 Wrth adolygu'r cynllun eleni, rydym wedi edrych ar lle rydym wedi cyrraedd ar ôl pedair blynedd o weithredu Cynllun Strategol 2013-17 ac ystyried beth sydd angen ei gyflawni yn 2017/18. Yn ogystal â bod yn ymestyniad o'r cynllun blaenorol, fe fydd Cynllun 2017/18 hefyd yn pontio'r cyfnod rhwng Cynllun Strategol Cyngor Gwynedd 2013-17 a'r cynllun newydd a fydd yn cael ei baratoi a'i fabwysiadu gan y Cyngor a fydd yn cael ei ethol fis Mai 2017.

1.3 Er mwyn adolygu'n iawn, roedd angen inni ystyried beth oedd wedi newid ers y llynedd, gan edrych ar faterion cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol sydd yn dylanwadu ar y Cyngor ac sy'n debygol o ddylanwadu ar bobl Gwynedd i'r dyfodol. Hefyd, fe ddaeth Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn weithredol fis Ebrill 2016, ac mae'r cynllun hwn yn dangos sut rydym yn newid ein ffordd o weithio i adlewyrchu hyn. Mae ein Datganiad Llesiant a'n Hamcanion Llesiant wedi eu cynnwys yn y cynllun.

1.4 Mae'r cynllun wedi ei baratoi i gwrdd â gofynion y ddeddf, ond bydd yn cael ei gyhoeddi cyn cyhoeddi Asesiad Llesiant Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd a Môn ac felly nid yw'n ymgorffori canlynadau'r asesiad hwnnw. Erbyn y flwyddyn nesaf, byddwn wedi ystyried yr Asesiad Llesiant, a bydd disgwyl i'w ganlyniadau ddylanwadu ar gynnwys y cynllun o 2018/19 ymlaen.

1.5 Er mwyn parhau i gwrdd ag anghenion pobl Gwynedd er gwaetha'r ffaith bod yr arian sydd ar gael yn lleihau'n sylweddol, rydym yn gweithio at weledigaeth y ddeddf llesiant. Mae'r gwasanaethau a ddarperir gan y Cyngor yn cyflawni ein hamcanion llesiant sydd gyda'i gilydd yn cwrdd â nodau llesiant y ddeddf. Mae cynlluniau'r Cyngor i wella hefyd yn cryfhau ein gallu i gyflawni'r amcanion llesiant.

1.6 Mae'r cynllun wedi ei baratoi hefyd mewn cyfnod o newid, ac mae'n dilyn cymeradwyo cyfres o doriadau gwerth £4.9miliwn a oedd yn seiliedig ar ymateb y cyhoedd a busnesau drwy ymgynghoriad Her Gwynedd. Rydym wedi bod yn gweithio ar wireddu'r toriadau yn 2016/17 a bydd eraill i'w gwireddu yn 2017/18.

## 2.0 Newidiadau ers cynllun 2013-17

Mae rhai prosiectau (neu'r Cynlluniau i Wella fel y'u gelwir yn y cynllun hwn) wedi dod i ben:

- **Ysgol Hafod Lon** – gwaith wedi ei gwblhau
- **Ail-strwythuro Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant** – gwaith wedi ei gwblhau
- **Darpariaeth Fewnol** – gwaith wedi ei gwblhau
- **Gweithredu Cyfundrefn Berfformiad** – gwaith wedi ei gwblhau
- **Gwella mynediad pobl y sir i waith ac ymateb i rwystrau** – gwaith yn parhau fel rhan o gynllun **Cydymdrechu yn erbyn Tlodi**

Mae **Prosiect Bangor** yn ymddangos yn newydd yng nghynlluniau i wella Plant a Phobl Ifanc.

## 3.0 Adnoddau

3.1 Mae rhai cynlluniau i wella angen adnoddau ychwanegol er mwyn parhau i fedru cyflawni eu hymrwymiadau. Y rhain yw:

| **Cynllun i Wella (Prosiect)** | **Ymwrwymiad adnodd (£)** |
|---|---|
| Rhaglen Ymyrraeth Gynnar/Ataliol ar gyfer grwpiau o blant a phobl ifanc bregus Gwynedd | 40,000 |
| Pobl ifanc yn defnyddio'r Gymraeg yn gymdeithasol | 40,000 |
| Swyddi gwerth uchel ac o ansawdd | 117,000 |
| Cydymdrechu yn erbyn tlodi | 155,000 |
| Cynllun Datblygu Gwynedd Wledig | 23,000 |
| Digwyddiadau proffil uchel a strategol | 42,000 |

3.2 Cynigwn fod y rhain yn cael eu cymeradwyo yn rhan o'r cynllun, yn amodol ar gytundeb gan y Cabinet i'w hariannu, wedi iddynt ystyried sefyllfa pob prosiect yn unigol. Disgwylir i hyn ddigwydd cyn gynted ag y bo'n bosib.

**4.0 Cydraddoldeb**

Mae gofyn statudol i baratoi ac ystyried canfyddiadau asesiad o effaith o safbwynt cydraddoldeb wrth baratoi'r cynllun yn unol â gofynion Deddf Cydraddoldeb 2010 fel y'i gweithredir yng Nghymru. Atodir yr asesiad yn Atodiad 2. Nid yw'r asesiad yn canfod unrhyw effaith fyddai yn cyfiawnhau gwyro oddi wrth yr argymhelliad a rhagwelir elfennau fyddai ag effaith positif.

**5.0 Argymhelliad**

Gwahoddir y Cyngor i fabwysiadu Cynllun y Cyngor 2017/18.

.